

No.

PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr A. Asbrey, C.A. Cave, W. Gilligan, S.J. Haines, N.P. Hodges, S.D. Perkes and R.R. Thomas

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned: Y Cyngorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri); A. Trousdell (Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llandleiddan); G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr); M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth); M. Phillips (Eilydd) (Cyngor Cymuned Dinas Powys); H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan); M. Misra (Eilydd) (Cyngor Cymuned Llandochoau); S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair); P. Wilson (Cyngor Cymuned Llangan); M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes); C. Wride (Cyngor Cymuned Penddeulwyn); P. Summers (Cyngor Cymuned Penllin); Mae S.M. Toker (Eilydd) (Cyngor Cymuned Sain Tathan); T. Partridge (Cyngor Cymuned Sain Dunwyd); W. Howells (Cyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid Elái); I. Perry (Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn); N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog), C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr C.P. Franks, G. John G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon, a Lles), Dr. I.J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

163 CYHOEDDIAD -

Cyn dechrau busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio drwy'r rhyngwrwyd, ac y bydd y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol".

Mae'r Cadeirydd hefyd yn croesawu holl Gynrychiolwyr newydd y Cyngorau Tref a Chymuned i'r Pwyllgor yn sgil Cyfarfodydd Blyneddol Cyngorau Tref a Chymuned a oed wedi cael eu cynnal ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd hefyd y Cynghorydd Gilligan i'r Pwyllgor a mynegi diolch y Pwyllgor i'r Cynghorydd Aviet, a oedd wedi ildio ei sedd ar y Pwyllgor, am ei chyfraniad i'r Pwyllgor hyd yma.

164 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr R.M. Birch, S. Campbell and H. Payne ac Cyngorwyr Cymuned K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), J. Radcliffe

No.

(Cyngor Cymuned Ewenni), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), S. Roberts (Cyngor Cymuned Saint-y-brid) ac A. Thomas (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

165 COFNODION –

CYTUNWYD – Y dylid nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023, yn amodol ar roi ystyriaeth bellach i Gofnod Rhif 874 gan y Cyngorydd Cave a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd i gyflwyno pwyntiau i'w hegluro yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

166 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

167 GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU - DIWEDDARIAD LLAFAR -

Rhoddodd yr Arolygydd Henderson wybod i'r Pwyllgor am y tri mater plismona canlynol:

(1) Roedd Ymgyrch Elstree, ymateb y bartneriaeth i'r galw ychwanegol yn sgil yr ardaloedd arfordirol dros fisoedd yr haf, yn weithredol gyda'r galw wedi gostwng yn aruthrol o'i gymharu â'r llynedd. Mewn partneriaeth â Swyddogion y Cyngor, gwelwyd canlyniadau ardderchog wrth orfodi is-ddeddfau. Roedd 60 o gamau ar gyfer gwella wedi'u nodi'n flaenorol a'u gweithredu, felly roedd yr ymgyrch yn mynd rhagddi'n dda. Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer yr ymgyrch hefyd wedi'i neilltuo o gyllideb ganolog yr heddlu a fyddai'n arwain at adnoddau ychwanegol a swyddogion heddlu ar lawr gwlad yn ogystal â swyddogion ychwanegol ar gyfer gwaith orfodi is-ddeddfau yr oedd y Cyngor yn ei ddatblygu.

(2) Mewn perthynas â phatrymau troseddau cyffredinol, roedd ystadegau Bro Morgannwg yn cyfateb â'r darlun cenedlaethol. Roedd ystadegau troseddau categori difrifol fel trais, lladrata a throseddau cylllell wedi gostwng, ond yn anffodus roedd yr ystadegau troseddau rhyw a dwyn o siopau. Roedd yr heddlu wedi gweld canlyniadau da iawn yn y Barri yn gysylltiedig â throseddau cyffuriau. Roedd Heddlu De Cymru wedi llwyddo i sicrhau'r euogfarn gyntaf am feddiant gyda'r bwriad o gyflenwi crac cocên, a oedd yn gyffur gweddol newydd yn ardal Bro Morgannwg. Roedd yr un cemegau'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu crac cocên â'r hyn a oedd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r cyffur treisio ar ddêt, Rohypnol, ac roedd yr unigolyn a oedd yn cyflenwi o Dde Cymru hefyd yn dosbarthu'r cyffur yn genedlaethol, felly cafodd yr euogfarn ei groesawu'n fawr. Cafwyd amryw o arestiadau eraill yn gysylltiedig â chyffuriau, ac roedd unigolion bellach yn disgwyl cael eu dedfrydu.

(3) Roedd yr orymdaith 'reidio allan' ar feiciau modur mewn ymateb i farwolaeth drasig dau fachgen yn ardal Trelái, Caerdydd wedi arwain at amryw o arestiadau a chyhuddiadau yn y llys. Cafodd 20 o gerbydau oddi ar y ffordd

No.

anghyfreithlon eu hatafaelu, ac roedd erlyniadau pellach yn yr arfaeth yn sgil lefelau'r tensiwn cymunedol a achoswyd gan yr orymdaith.

Yn dilyn diweddariad yr Arolygydd, a chwestiynau a sylwadau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd yr Arolygydd y sylwadau canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Perkes ynghylch natur y cynnydd mewn achosion o ddwyn o siopau yn yr ardal, roedd yr eitemau a oedd yn cael eu dwyn yn perthyn i un o ddau gategori. Naill ai roedd y cyflawnwr yn dwyn yr eitemau ar ei gyfer ef ei hun yn unig, yn sgil effeithiau'r argyfwng costau byw presennol, neu roedd yr eitemau'n cael eu dwyn i'w gwerthu er mwyn creu elw.
- Roedd Tîm Plismona'r Fro bellach wedi'i staffio'n llawn, ac roedd swyddogion yn falch o glywed gan gynrychiolydd Cyngor Tref y Bont-faen y bu gostyngiad amlwg mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sgil cynnydd ym mhresenoldeb swyddogion yng Nghanol Tref y Bont-faen.
- Byddai rhwystredigaeth y Cyngorydd Perry ynghylch yr wybodaeth gyswilt anghywir ar y wefan blismona yn cael ei hadrodd yn ôl i swyddogion TGCh yr heddlu.
- Gallai Cydwasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor ymwneud â chwynion am sŵn yn sgil pibellau gwacáu wedi'u haddasu ar gerbydau a gellid gosod camerâu arbrofol mewn ardaloedd a oedd yn destun pryder.
- Byddai Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) ar gyfer ardal Tresimwn a Sain Nicolas yn cael gwybod am bryderon y Cyngorydd Perry ynghylch cerbydau a oedd yn parcio ar y llwybr troed cyhoeddus, er mwyn stopio a mynd i'r siop leol. Lle bo modd, byddai adnoddau'r heddlu bob amser yn cael eu cyfeirio i ardaloedd a oedd yn destun pryder, ond byddai'n rhaid dyrannu adnoddau ar sail blaenoriaeth a'r galw. Yn dilyn y cyfarfod, byddai'r Arolygydd Henderson yn siarad â'r PCSO lleol i ganfod beth oedd yn ei wybod am y sefyllfa, a byddai wedyn yn cysylltu â'r Cyngorydd Perry i roi'r newyddion diweddaraf ar ôl y cyfarfod.
- Byddai'r Arolygydd Henderson yn cysylltu â'r Cyngorydd Perry yn dilyn y cyfarfod ochr yn ochr â'r PCSO ar gyfer ardal Tresimwn i drafod problem traffig yn goryrru drwy ardal Tresimwn, yng nghyd-destun gosod camerâu cyflymder ychwanegol yn unol ag ardaloedd eraill i'r gogledd o'r M4.
- Nid oedd yr Arolygydd Henderson yn ymwybodol o fanylion y lladrad a adroddwyd yn gysylltiedig ag eiddo Cyngor Cymuned Tresimwn a Sain Nicolas, a byddai felly'n ymchwilio i fanylion y lladrad ac yn adrodd yn unrhyw wybodaeth yn ôl i'r Cyngorydd Perry.
- Yn ôl yr hyn a ddeallai'r Arolygydd Henderson, roedd swyddogion yr heddlu yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned, a byddai felly'n cadarnhau'r ffaith â'r swyddogion perthnasol ac yn cysylltu â Clerc Cyngor Cymuned Sain Tathan i gadarnhau presenoldeb a threfniadau cyfarfodydd nesaf y Cyngor Cymuned.
- Nid oedd yr Arolygydd Henderson yn ymwybodol o fanylion y lladrad a adroddwyd mewn perthynas â Neuadd Tref y Bont-faen ac felly byddai'n ymchwilio i'r achos ac yn ymateb i'r Cyngorydd Trousdell fel cynrychiolydd Cyngor Tref y Bont-faen ar y Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Y dylid diolch i'r Arolygydd Henderson am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

168 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR -

Rhoddodd Mr. Treherne, Rheolwr Grŵp wybod i'r Pwyllgor am y materion canlynol yn gysylltiedig ag ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg:

(1) Roedd Prynawn Gweithredu Bro Ddiogelach wedi'i drefnu ar gyfer 7 Gorffennaf, 2023 - o 3pm tan 7pm a byddai'n cynnwys swyddogion o'r Awdurdod Lleol, Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd y digwyddiad yn cyd-fynd â'r Wythnos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn codi ymwybyddiaeth, ac yn ceisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. O safbwynt y Gwasanaeth Tân, roedd hyn yn gysylltiedig a chychwyn tanau'n fwiadol a throseddau tân.

(2) Roedd Ymgyrch Dawns Glow, tasglu aml-asiantaeth a sefydlwyd ar gyfer asiantaethau partner allweddol, wedi cael ei sefydlu i dargedu ac addysgu ynghylch tanau gwyllt, a gobeithio cael gwared arnynt. Roedd y Gwasanaeth wedi cael mis prysur iawn mewn perthynas â thanau gwyllt a thanau glaswellt. Ar un penwythnos, profodd y Gwasanaeth dros 80 o danau gwyllt mawr, a roddodd straen sylweddol ar ei adnoddau, a pheryglu ei griwiau'n ddiangen. Nid oedd y cynnydd mewn tanau gwyllt yn broblem a oedd yn gysylltiedig â chenhedlaeth arbennig - roedd yn broblem a oedd yn codi dro ar ôl tro o'r naill flwyddyn i'r nesaf, felly roedd y Gwasanaeth yn targedu'r broblem hyd yr eithaf drwy gydweithio ag asiantaethau partner i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr effaith ar fywyd gwyllt, yr amgylchedd a gweddill i criwiau gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd.

(3) Roedd hi'n Wythnos Atal Boddi'r Byd o 25 Gorffennaf, 2023 felly byddai'r Adran Troseddau Tân yn bresennol mewn digwyddiadau ymgysylltu yn y Barri ac Ogwr gyda'r gobaith o addysgu pobl ynghylch effeithiau sioc dŵr oer, a sut y gall rhywun aros yn ddiogel/arnofio os bydd yn disgyn i mewn i'r dŵr.

(4) Roedd gwaith ffilmio partneriaeth hefyd yn digwydd ar 7 Gorffennaf, 2023 yn Ynys y Barri. Roedd hyn yn cyd-fynd ag amcanion Ymgyrch Elstree a lliniaru ymddygiad gwrthgymdeithasol.

(5) Mewn perthynas ag ystadegau ardal:

- Llifogydd – Dim ond 3 galwad allan a gafwyd dros y misoedd diwethaf, ac roedd hynny'n ddisgwyliedig ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.
- Tanau Glaswellt – Roedd y niferoedd wedi cynyddu, ond roedd y cynnydd yn fwy yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr nag yn ardal Bro Morgannwg.
- Galwadau Ffug Maleisus – Roedd nifer y galwadau allan yn debyg i flynyddoedd blaenorol, yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr ac ym Mro Morgannwg. Hyd at 31 Mai 2023, roedd y Gwasanaeth wedi derbyn 257 o alwadau maleisus a oedd wedi cael eu hadnabod a'u herio gan yr ystafell reoli a'r staff. Roedd hyn yn cynrychioli mymryn o gynnydd, ond roedd

No.

galwadau maleisus yn dal i gael eu hadnabod a'u herio er mwyn atal gyrru adnoddau'n ddiangen.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Y dylid diolch i'r Rheolwr Grŵp Treherne am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

169 CAIS AM YSTYRIAETH – CYNGOR CYMUNED LLANDOUGH - TREFNIADAU AR GYFER MONITRO AMGYLCHEDD CŴN YN BAEDDU MEWN CYMUNEDAU -

Ar 27 Mawrth, 2023 gwnaeth Cyngor Cymuned Llandochoau gais ffurfiol i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol ystyried trefniadau y gallai Tîm Gorfodi Cyngor Bro Morgannwg eu gwneud i sicrhau bod swyddogion ar batrôl mewn ardaloedd gyda'r nos ac yn gynnar yn y bore pan fyddai achosion o faw ci yn fwy tebygol o ddigwydd, a pherchnogion cŵn yn peidio â chodi'r baw a chael gwared arno'n briodol.

Gyda chefnogaeth y Rheolwr Gweithredo Gwasanaethau Trafnidiaeth, cyflwynodd y Rheolwr Gorfodi ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth yr adroddiad mewn ymateb i gais y Cyngor Cymuned a oedd yn egluro'r pwerau a oedd gan y Tîm Gorfodi ar hyn o bryd, y camau a gymerwyd hyd yma yn ogystal â'r camau a gynlluniwyd i'r dyfodol.

Dywedodd y Swyddog fod baw cŵn yn cael ei orfodi'n flaenorol drwy Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 a Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) a gyflwynwyd i droseddwr y gwelwyd nad oeddent yn codi ar ôl eu cŵn. Disodlwyd hyn yn 2021 gan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) y Cyngor, gan barhau i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Roedd y PSPO presennol yn ymdrin â'r ardaloedd canlynol (yn unig) , bob awr o'r dydd a phob dydd o'r wythnos:

- Dinas Powys (man agored Heol Caerllion, Comin Dinas Powys, Parc Bryn-Y-Don, maes chwarae Cae'r Odyn, ardal chwarae Drylla, ardal chwarae Nightingale Place, ardal chwarae Parc Seel, George's Row, a Chae Chwarae Murch),
- Y Barri (roedd y rhain yn cynnwys Parc Bassett, Parc Canol y Barri, Traeth Knap – Y Promenâd, y Gerddi a'r hen Lido, Parc Jenner, Parc Pencoedtre, Parc Gwledig Porthceri),
- Llandochoau (maes chwarae Cogan Pill, cae chwarae Brenin Siôr V),
- Llanilltud Fawr (Cwm Colhuw),
- Penarth (Parc Alexandra, Parc Belle Vue, Parc Gwledig Cosmeston, Pier Penarth),
- Y Rhws (Ffordd Geltaidd),
- Sili (maes chwaraeon Rhodfa Burnham) a'r
- Bont-faen (Parc Twt).

No.

Yn ogystal â hyn, dywedodd y Swyddog fod y Gwasanaeth Gorfodi yn gymharol fach, gydag wyth swyddog patrôl yn gweithio dros ardal ddaearyddol fawr, rhwng 06:00 a 22:00 saith diwrnod yr wythnos. Roedd lle i swyddogion weithio y tu allan i'r oriau craidd hynny, ond byddai angen i hynny fod yn seiliedig ar wybodaeth er mwyn gallu targedu adnoddau yn unol â hynny. Roedd y Gwasanaeth Gorfodi hefyd yn gyfrifol am holl waith gorfodi parcio sifil Bro Morgannwg, a hefyd am orfodi Troseddau Gwastraff a PSPO/is-ddeddfau. Ac ystyried pa mor brin oedd adnoddau'r Gwasanaeth Gorfodi, ni ellid disgwyl i'r tîm fod yn bresennol o hyd 24/7 yn yr holl ardaloedd a oedd wedi'u cynnwys yn y PSPO.

Er bod perchnogaeth ar gŵn wedi cynyddu 10%, nid oedd tystiolaeth bod achosion o faw ci wedi cynyddu'n gymesur â hynny. Byddai'r PSPO cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2024, ac roedd ymgynghoriad i fod i gael ei gynnal ar PSPO diwygiedig yn ddiweddarach yn 2023. O'i dderbyn, byddai'r cynnig yn cynnwys yr holl dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sydd o dan reolaeth Cyngor Bro Morgannwg, yn hytrach na lleoliadau penodol yn unig. Byddai hynny'n cynyddu ardal y Gwasanaeth Gorfodi yn aruthrol, ac yn eu galluogi i gyflwyno HCB am faw ci ar y rhan helaeth o dir cyhoeddus.

Fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llandochau ar y Pwyllgor, dywedodd y Cynghorydd Dr. Misra ei bod hi'n bwysig bod y PSPOs yn berthnasol i holl dir agored Bro Morgannwg. Gan fod Cyngor Cymuned Llandochau nawr yn ymwybodol o'r ardaloedd penodol yn Llandochau a oedd wedi'u cynnwys yn y PSPO cyfredol, byddai'n gallu cymryd camau pellach. Holodd y swyddogion a oedd yn cyflwyno pa gamau pellach y gallai Cyngor Cymuned Llandochau eu cymryd er mwyn helpu i liniaru'r broblem.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, a sylwadau a chwestiynau aelodau'r Pwyllgor yn dilyn hynny, ychwanegodd y Swyddogion y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y swyddogion mai'r ffordd orau i Gyngor Tref neu Gymuned liniaru'r broblem baw ci oedd siarad â'u holl Aelodau Pwyllgor am y mater, a gofyn iddynt nodi union leoliad(au) y drosedd, a gofyn i aelodau'r Cyngor siarad â'r cyhoedd i gasglu'r wybodaeth honno. Gallai'r Cyngor Tref neu Gymuned adrodd yn ôl i Dîm Gorfodi'r Cyngor er mwyn helpu'r tîm i gael gwybodaeth ar lawr gwlad ynghylch y manau lle'r oedd y broblem yn codi. Er bod y PSPO cyfredol yn gyfyngedig, gallai'r Cyngor ymateb i unrhyw wybodaeth newydd, fel targedu ardaloedd penodol a mynd ati'n weithredol i annog cerddwyr cŵn i beidio â gadael i'w ci faeddu'r ardaloedd hynny. Byddai unrhyw un a fyddai'n cael ei ddal yn gadael i'w gi faeddu tir sy'n gysylltiedig â PSPO yn cael rhybudd bod yn rhaid iddynt gario ffordd o godi baw eu ci wrth gerdded yn yr ardal neilltuol honno.
- Byddai'r diweddiariad a oedd ar ddod i'r PSPO yn cynnwys pob ardal sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sy'n agored i'r aer ar dair ochr, fel parciau a chaeau chwarae plant. Byddai'r rhan fwyaf o hysbysiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod ymgyrchoedd lle'r oedd swyddogion yn gwisgo dillad cyffredin. Roedd hi'n bwysig amlygu y byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r PSPO fynd drwy ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd, felly byddai angen anfon canlyniadau'r ymgynghoriad yn ôl i Gabinet y Cyngor er ystyriaeth.

- Y swyddog PCSO fyddai'n penderfynu, ar sail y ffeithiau, a oedd am orfodi dirwy neu fynd at unigolyn a oedd yn cyflawni'r drosedd. Nid oedd yn ofynnol yn gyfreithiol i PCSOs fynd at unigolion na gorfodi dirwy arnynt wedi iddynt gael eu dal yn gadael i'w hanifail faeddu. Roedd y swyddogion yn cydnabod pwynt y Cynghorydd Asbrey, mai PSCOs yn aml oedd yr unig swyddogion heddlu y byddai aelodau o'r cyhoedd yn eu gweld yn rheolaidd, felly roedd hi'n gwneud synnwyr y dylid caniatáu i PSCOs orfodi dirwyon.
- Roedd mwy o ddirwyon cosb benodedig wedi cael eu gorfodi am daflu baw ci nag am faeddu gan gŵn ei hun. Roedd hi'n bwysig felly i swyddogion ganolbwyntio ar addysgu sut i fod yn berchennog ci cyfrifol - nid cynnal ymgyrchoedd gwisgoedd cyffredin yn unig i orfodi dirwyon ar ôl gweld y drosedd yn digwydd.
- Nid pwrpas y cynigion a wnaeth y Cyngor yn gysylltiedig â'r diweddariad a oedd ar ddod i'r PSPO oedd tynnu pwerau oddi ar yr heddlu, ond yn hytrach rhoi pwerau ychwanegol i swyddogion gorfodi. Er enghraifft, y gallu i wahardd cŵn rhag mynd yn agos at dda byw ar gaeau ffermio er mwyn osgoi ymosodiadau ar dda byw neu atal sefyllfa lle gallent fod yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth gŵn ac o flaen traffig, a chael eu hanafu yn sgil hynny. Y cyngor o hyd oedd y dylid cadw ci ar dennyn bob amser wrth ymyl anifeiliaid eraill. O dan y meini prawf a osodwyd yn y diweddariad a oedd ar ddod i'r PSPO, byddai Tinkinswood a Gerddi Dyffryn yn cael eu cynnwys.
- Nid oedd Tîm Gorfodi cyfredol y Cyngor ond yn cynnwys 8 aelod o staff. Fodd bynnag, gellid defnyddio nifer sylweddol o swyddogion ychwanegol i fodloni'r galw ar draws ardal Bro Morgannwg. Roedd yn rhaid i'r adran felly fod yn realistig yn y modd yr oedd yn dyrannu ei hadnoddau. Roedd y Cyngor yn anelu i gryfhau'r PSPO, ond roedd yn rhaid iddo fod yn ofalus ynghylch sut y byddai'n mynd ati i wneud hynny, oherwydd gallai cryfhau'r PSPO roi pwysau ychwanegol ar ei Swyddogion Gorfodi a fyddai wedyn yn cael eu llethu.
- Roedd hi'n gyffredin dod ar draws aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n casglu gwastraff cŵn ac wedyn yn ei daflu i lwybr nad oedd yn llwybr cerdded mewn ardal goediog. Byddai hyn yn aml yn cael ei alw yn 'sticio a fflicio'. Fodd bynnag, gallai'r tir hwnnw hefyd fod yn dir yr oedd plant ifanc yn chwarae arno, felly gallai peidio rhoi'r baw mewn bag a'i roi yn y bin yn y dull cywir achosi risg i iechyd.
- Roedd y swyddogion yn croesawu awgrym y Cynghorydd Cave i recriwtio gwirfoddolwyr o blith y cyhoedd i gefnogi Swyddogion Gorfodi wrth eu gwaith, gan fod cyflogi swyddogion newydd yn gostus iawn ar hyn o bryd. Byddai Swyddogion Gorfodi Bro Morgannwg yn annog y syniad o sefydlu peilot i weithio gyda gwirfoddolwyr, ac felly byddai ganddynt ddiddordeb mewn ysgrifennu achos busnes i gefnogi hynny.
- Roedd yr ymgyngoriad yn gysylltiedig â diweddariad y PSPO yn debygol o ddechrau tua diwedd mis Medi 2023 er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau i Gabinet y Cyngor ymhell o flaen y terfyn amser diweddar. Byddai'r ymgyngoriad yn cael ei anfon allan at yr holl Aelodau Etholedig a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu i'r swyddogion am roi cyflwyniad diddorol, a hefyd am waith caled y Tîm Gorfodi

No.

cyfredol a oedd yn gweithio gydag adnoddau prin. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at y ffaith mai bwriad Ymgyrch Snoopy oedd atal yn hytrach na dirwyo perchnogion cŵn, ac atgoffodd holl aelodau'r Pwyllgor bod Cynghorwyr hefyd yn gweithredu fel llygaid a chlustiau er mwyn trosglwyddo gwybodaeth werthfawr am eu cymunedau ar lawr gwlad i'r Swyddogion Gorfodi, ac roeddent yn annog yr holl Gynghorwyr Tref a Chymuned i wneud hynny. Roedd hi bob amser yn fuddiol atgoffa cerddwyr cŵn fod angen iddynt gario dull o godi ar ôl eu hanifail anwes, ac wrth roi gwastraff mewn bin gwastraff cyffredinol, bod angen sicrhau bod y gwastraff wedi'i orchuddio'n ddigonol.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad ymateb.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad ar drefniadau ar gyfer monitro nifer yr achosion o faw cŵn mewn cymunedau yn dilyn Cais am Ystyriaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llandochoau.

170 CYFLWYNIAD: DIWEDDARIAD TCC (CYF) -

Yn dilyn cais yn gysylltiedig â'r rhaglen waith gan Gadeirydd y Pwyllgor, cyflwynwyd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 19 Ebrill 2023.

Cafodd y cyflwyniad PowerPoint atodedig ei gyflwyno gan y Rheolwr Polisi Diogelwch Cymunedol ar y cyd â'r Swyddog Datblygu Diogelwch Cymunedol. Roedd yn trafod diweddarau system TCC Cyngor Bro Morganwg. Dyma'r prif agweddau a amlygwyd i'r Pwyllgor:

- Byddai'r system TCC newydd (a oedd yn defnyddio meddalwedd 'Synergy') yn cynnig system fwy deinamig, integredig ac o ansawdd uwch a fyddai o gymorth i nodi ardaloedd problemus o ran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a hefyd o gymorth i ddiogelu, drwy integreiddio a defnyddio camerâu 'symudol' a chamerau sefydlog ar draws y Fro, er mwyn helpu i gefnogi'r Cyngor, yr Heddlu a phartneriaid. Byddai hefyd yn galluogi mynediad rhydd a chyflym i'r TCC, ac i adolygu deunydd ffilm o'r gorffennol.
- Mae staff Diogelwch Cymunedol wedi derbyn hyfforddiant ar weithredu TCC er mwyn dangos darnau ffilm i swyddogion yr Heddlu yn yr ystafell wylio, er mwyn sicrhau ymateb cyflymach i achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Roedd cydweithwyr o Gyngor Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru yn parhau i gwrdd yn wythnosol i drafod datblygiad TCC, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Comisiynydd Camerau Gwyliaidwraeth.
- Roedd y gwaith i uwchraddio'r TCC bron wedi'i gwblhau, er gwaethaf yr heriau wrth osod y cysylltiadau ffibr, wrth i gamerau HD/digidol gael eu gosod yn lle'r rhai analog. Roedd disgwyl i'r broses gael ei chwblhau erbyn

No.

haf 2023. Yn rhan o hyn, byddai effeithiolrwydd a llwyddiant y system TCC newydd yn cael ei ymgorffori yn yr Adroddiad Uchafbwyntiau Diogelwch Cymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith preswylwyr a chymunedau lleol, helpu i arddangos eu gwaith a meithrin hyder y cyhoedd.

- Byddai'r system TCC yn cael ei hadolygu'n barhaus, gan gynnwys fframwaith perfformiad newydd, er mwyn sicrhau bod modd gwireddu holl fanteision y system newydd, hy, lleoli yn y man cywir, datblygu cysylltiadau â chanol trefi ac economi hwyr y nos ac ati.
- Roedd y system TCC newydd eisoes yn cael effaith gadarnhaol yn y Fro, gyda nifer sylweddol o geisiadau ers Hydref 2022 am ddarnau ffilm TCC yn gysylltiedig ag achosion o fyrgleriaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llesiant a difrod troseddol, a oedd wedi arwain at ymglymiad a phresenoldeb yr heddlu.
- Roedd trefniadau eisoes wedi'u gwneud i Aelodau Etholedig ymweld â'r ystafell reoli TCC newydd yng Nghaerdydd, ac roedd ymweliadau wedi'u cynnal, gyda dyddiadau pellach i'w cyhoeddi yn y dyfodol agos.

Yn dilyn y cyflwyniad, canmolodd y Cynghorydd Perkes yr ymweliadau diweddar gan Aelodau Etholedig â'r Tîm Diogelwch Cymunedol yng Ngorsaf Heddlu'r Barri, a'r Ganolfan TCC yng Nghaerdydd, yn ogystal â gweithredu'r camerâu TCC y bu galw amdanynt ers cryn amser.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

CYTUNWYD - Y dylid nodi cyfeirnod y Pwyllgor a'r cyflwyniad PowerPoint atodol.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Pwyllgor a'r Cyflwyniad PowerPoint atodedig ar uwchraddio system TCC Cyngor Bro Morgannwg.

171 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA -

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol dros Beirianeg gyflwyniad PowerPoint i'r Pwyllgor ar ffurf diweddariad ynghylch Cyflwyno Terfyn Cyflymder 20mya Diodyn ym Mro Morgannwg. Roedd gan Weinidogion Cymru bwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno terfyn cyflymder diodyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig, fel y'u diffiniwyd yn Adran 82 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Roedd hyn yn dilyn diweddariad blaenorol ar y mater, a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Hydref, 2022.

Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- Y sail resymegol wrth wraidd newid y terfyn cyflymder diodyn, sef llai o wrthdrawiadau, pobl yn teimlo'n fwy diogel ac yn elwa ar lesiant corfforol a meddyliol.
- Roedd Adroddiad Terfynol Tasglu 20mya Cymru (Gorffennaf 2020) yn cyflwyno achos o blaid cyflwyno terfyn cyflymder diodyn o 20mya ar ffyrdd

cyfyngedig ledled Cymru. Roedd ffyrdd cyfyngedig yn cynnwys ffyrdd ac arnynt oleuadau stryd heb fod ymhellach na 200 llath oddi wrth ei gilydd ac a oedd fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig ac ynddynt lawer o gerddwyr.

- Yn rhan o'r cam cyflwyno cyntaf hwn, roedd cynllun peilot wedi'i gynnal yn ardal Saint-y-Brid ym Mro Morgannwg ac wedi cael ei ddefnyddio i brofi'r prosesau a'r problemau a allai godi cyn cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar raddfa genedlaethol ar 17 Medi, 2023.
- Roedd ffyrdd a oedd ar hyn o bryd yn 40mya (neu'n uwch) y tu allan i gwmpas y Rhaglen Cyflwyno 20mya Genedlaethol. Byddai unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y dyfodol i ffyrdd y tu allan i'r cwmpas wedi'u cynnwys yn fersiwn ddiwygiedig y Canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru a oedd yn yr arfaeth, ac yn ddibynnol ar yr adnoddau a'r gyllideb a fyddai ar gael ar y pryd.
- Roedd gwaith i newid arwyddion a marciau ffordd ym Mro Morgannwg wedi dechrau a byddai'r gwaith hwnnw'n parhau ar ôl 17 Medi, 2023. Roedd cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi'i ymrwymo'n llawn i'r gwaith hwn. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, roedd grant o £1.59m wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor i gyflwyno'r cynllun.
- Byddai Heddlu De Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, ymarferwyr diogelwch ffyrdd a'r cyhoedd ac yn ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol i nodi a thargedu ffyrdd lle ceir y lefel uchaf o risg ar gyfer gorfodi ar ôl 17 Medi 2023.
- Cafodd Gorchmynion Rheoleiddio Ffyrdd (TROs) ar gyfer Mapiau Eithrio eu cyhoeddi ar 22 Mehefin, 2023, gan roi 28 diwrnod o rybudd i'r cyhoedd wrthwynebu / gyflwyno sylwadau. Roedd hyn wedi'i ymestyn o 21 diwrnod y dilyn adborth gan Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd y Map Eithrio ar gyfer Bro Morgannwg, ar gyfer ffyrdd dosbarth A a B, bellach yn fyw ar Map Data Cymru.
- Roedd manylion llawn y TROs bellach ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, lle gellid gweld yr amserlen a'r cynlluniau. Byddai unrhyw wrthwynebiadau a fyddai'n dod i law yn cael eu hadrodd i'r Cabinet er ystyriaeth. Pe na bai unrhyw wrthwynebiad, gellid gweithredu'r TROs heb adrodd gerbron y Cabinet

Ar ôl cyflwyniad y Swyddog, a sylwadau a chwestiynau aelodau'r Pwyllgor yn dilyn hynny, ychwanegodd y Swyddog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn cael ei weithredu yn dilyn deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan Gyngor Bro Morgannwg. Roedd y cynllun wedi'i gyfyngu i ffyrdd cyfyngedig y unig, a olygai fod nifer o ffyrdd mewn ardaloedd gwledig heb fodloni'r gofynion/y tu hwnt i'r cwmpas. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn penderfynu ynghylch eithrio ffyrdd A a B yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a byddai unrhyw bryderon a fyddai'n dod i law yn rhan o ymgynghoriad TRO yn cael eu hadolygu a'u hadrodd gerbron y Cabinet.
- Gallai unrhyw Gyngor Tref a Chymuned wirio'r ffyrdd a oedd wedi'u heithrio o'r cynllun ar wefan Map Data Cymru. O ran adolygu terfynau cyflymder ar ffyrdd a oedd y tu hwnt i gwmpas y cynllun cyfredol, roedd Llywodraeth

Cymru'n diweddarau ei dogfen ganllaw 'gosod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru', ac roedd hi'n debygol y byddai hynny'n digwydd ar ôl 17 Medi, 2023, ond nid oedd Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad ar gyfer hynny eto.

- O ran y rhesymau pam bod Bro Morgannwg wedi eithrio ffyrdd, byddai'r swyddogion yn cyfeirio'r canllawiau eithrio i sylw'r Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd hyperddolen i'r canllawiau hynny wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru. Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi dilyn y canllawiau mewn modd rhesymegol a chyson. Er mwyn atal ffyrdd rhag newid yn ddiodyn i 20mya yn rhan o'r cynllun, roedd yn rhaid i'r Cyngor lunio Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) a oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, ac roedd y manylion wedi'u cyhoeddi ar 22 Mehefin, 2023, ac felly gallai unrhyw un wneud sylw ynghylch y ffyrdd a gynigiwyd i'w heithrio gan yr Awdurdod Lleol.
- Roedd canllawiau eithrio Llywodraeth Cymru yn helpu'r Cyngor i asesu pa ffyrdd y dylid eu heithrio ar sail defnydd gan gerddwyr a'u lleoliad, a byddai'r Cyngor yn ystyried yr holl sylwadau a fyddai'n dod i lawr yn ystod yr Ymgynghoriad TRO i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.
- Nid oedd unrhyw ddylanwad gwleidyddol ar y cynllun, gan ei fod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Yr unig bwerau a oedd gan Cabinet cyfredol y Cyngor oedd cymeradwyo eithriadau yn dilyn ymgynghoriad ar sail cyngor proffesiynol swyddogion, ar ôl ystyried canllawiau eithrio Llywodraeth Cymru. Byddai'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau di-duedd yn seiliedig ar gyngor swyddogion, ac ni fyddai ganddo unrhyw bwerau i newid deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Yr unig bwerau gan y Cabinet oedd cymeradwyo'r TROs a gynigiwyd, yn amodol ar ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- Roedd problemau'n gysylltiedig â goryrru i'w cael ar draws holl ardal Bro Morgannwg, a mater i Heddlu De Cymru o hyd fyddai gorfodi terfynau cyflymder. Nid oedd Mr. Clogg yn ymwybodol o unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer camerâu cyflymder cyfartalog yn dilyn y cynllun, ac nid oedd gan Gyngor Bro Morgannwg gyllid ar gael i weithredu'r camerâu hynny ar hyn o bryd. Pe bai cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac yn amodol ar sefydlu prosesau priodol i reoli'r camerâu hynny, mae'n debygol y byddai'r galw am gamerâu cyflymder cyfartalog yn aruthrol. Roedd gan Mr. Clogg gyfarfod wedi'i drefnu â Gan Bwyll ar 17 Medi, 2023, i drafod mesurau gorfodi ar ôl rhoi'r cynllun ar waith, yn ogystal â darparu camerâu cyflymder cyfartalog a threfniadau swyddfa gefn i brosesu hysbysiadau.

I grynhoi, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu fod unrhyw ffordd 40mya a throsodd y tu hwnt i gwmpas y cynllun, ac y byddai canllawiau newydd i osod terfynau cyflymder yn cael eu cyflwyno ar ôl 17 Medi, 2023. Mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ynghylch TROs, byddai'r Cabinet yn derbyn gwybodaeth ddigonol ac yn gwneud penderfyniadau mewn modd gwrthrychol. Roedd paragraffau 2.5 a 2.6 y canllawiau eithrio yn cyfeirio at y meini prawf a ddefnyddiwyd gan swyddogion y Fro i ddod i benderfyniad, ac argymhellodd yr Aelod Cabinet y dylai pawb ddarllen y ddogfen gyhoeddedig cyn gwneud sylwadau ar yr ymgynghoriad.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, felly penderfynodd y Pwyllgor

No.

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad diweddar.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys y cyflwyniad ar y goblygiadau perthnasol, y rhaglen weithredu a sefyllfa'r gyllideb ar gyfer Cyflwyno Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya ar gyfer Bro Morgannwg.